



Deddf Cynllunio 2008 – adran 91

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf EN010112)

Agenda ar gyfer Gwrandawriad Materion Penodol 3 (ISH3) yn ymdrin â safle'r isbwerdy artraeth arfaethedig a materion cysylltiedig.

Dydd Iau 8 Rhagfyr 2022 am 10:00am.

Rhoddwyd hysbysiad o'r dyddiad, amser, lleoliad a chyfarwyddiadau presenoldeb ar gyfer ISH3 yn [llythyr yr Awdurdod Archwilio \(ExA\)](#) dyddiedig 11 Tachwedd 2022.

Agenda

1. Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawriad

2. Dylunio da

- Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 adran 4.5
- Adolygu'r Dyluniad a Hyrwyddwyr y Dyluniad
- Dewis Isbwerdy wedi'i Ynysu â Nwy neu Isbwerdy wedi'i Ynysu ag Aer
- Datganiad o'r Egwyddorion Dylunio [REP3-013] a Gofyniad 6 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [REP3-006]

3. Tirwedd a gweledol

- Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol (oLEMP) [REP2-010] – cynigion plannu / tirweddu a materion rheoli
- Darpariaethau cysylltiedig y dDCO [REP2-014]
- Effeithiau ar y dirwedd – ffisegol a chymeriad
- Effeithiau gweledol (gan gynnwys o Warchodfa Natur Glascoed a Faenol Broper)
- Dyluniad yr isbwerdy i leihau'r effeithiau gweledol

4. Bioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol

- Mesurau lliniaru, ôl-ofal a monitro
- Gwaith cyn dechrau, adeiladu a'r rhaglen
- Cynlluniau rheoli (gan gynnwys y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol [REP2-010], Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol [REP2-043] a'r Datganiad Dull Adeiladu Amlinellol [REP2-018]) a'r gofynion cysylltiedig yn y dDCO [REP2-014]
- Cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol ac ecosystemau

5. Iechyd a niwsans cyhoeddus

- Oriau gwaith
- Sŵn a dirgryniad yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu

- Strategaeth oleuo yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu

6. Traffig a thrafnidiaeth

- Mynediad at y safle

7. Adolygiad o'r materion a chamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg

- Bydd yr AA yn mynd i'r afael â sut caiff unrhyw gamau gweithredu a roddir ar yr Ymgeisydd eu bodloni

8. Unrhyw fater arall

9. Diwedd y gwrandawriad

Nodiadau ar gymryd rhan, cynnal a rheoli'r gwrandawriad

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i gymryd rhan yn ISH3. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw hefyd a bydd dolen i wyllo'r ffrwd fyw yn cael ei rhoi ar [dudalen y prosiect](#) ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn nes at ddyddiad y digwyddiad.

Mae gan bob Parti â Buddiant hawl i wneud sylwadau llafar yn ISH3. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar bŵer yr Awdurdod Archwilio i reoli'r gwrandawriad.

Byddai'n gynorthwyol i'r Awdurdod Archwilio pe byddai'r canlynol yn cymryd rhan yn ISH3:

- **Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited** (yr Ymgeisydd) – gan gynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd sydd mewn sefyllfa i drafod y materion ar yr agenda
- **Cyngor Sir Ddinbych**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Unrhyw Barti â Buddiant arall** – sydd â diddordeb yn safle'r isbwerdy arfaethedig a materion cysylltiedig

Gall cyfranogwyr gael eu cynrychioli'n gyfreithiol, os ydynt yn dymuno, ond caiff y gwrandawriad ei gynnal i sicrhau nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae arweiniad dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn amodi mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn holi, profi ac yn asesu'r dystiolaeth trwy holi'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawriadau. Bydd holi yn y gwrandawriad yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff y materion eu trafod ar y diwrnod y trefnwyd iddynt gael eu trafod. Bydd y gwrandawriad yn dod i ben cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn bod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi'u trafod. Os oes materion ychwanegol i fynd i'r afael â nhw neu gyflwyniadau sy'n mynd â chryn amser mewn unrhyw wrandawriad, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i gwestiynau ysgrifenedig.

Canllaw yn unig yw'r agenda. Nid yw wedi'i chynllunio i fod yn gyfyngol nac yn hollgynhwysol. Gallai'r Awdurdod Archwilio ychwanegu materion eraill i'w hystyried,

newid y drefn y caiff materion eu hystyried a bydd yn ceisio dyrannu digon o amser i bob mater er mwyn gallu rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Nid yw diffyg trafodaeth am fater penodol mewn gwrandawriad yn atal y mater hwn rhag cael ei archwilio ymhellach, gan gynnwys gofyn cwestiynau ysgrifenedig pellach.

Caiff holl ddogfennau'r Archwiliad eu darparu â rhif adnabod unigryw at ddibenion cyfeirio a ddangosir mewn cromfachau sgwâr [].

Dylai'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar yn ISH3 gael ei chynnwys mewn cyflwyniadau ôl-gwrandawriad a'i chyflwyno erbyn **dyddiad cau 3a, ddydd Gwener 16 Rhagfyr 2022**.

Diben Gwrandawriad Materion Penodol 3 (ISH3)

Prif ddiben ISH3 yw cynnal archwiliad o faterion amgylcheddol amrywiol. Yn benodol, adolygu ystyriaethau yn ymwneud â'r effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys materion sy'n deillio o ddogfennau'r cais a sylwadau yn ymwneud â'r canlynol:

- Dylunio da
- Yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol
- Bioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol
- Iechyd a niwsans cyhoeddus
- Traffig a thrafnidiaeth

Trefniadau wrth gefn

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ymdrechu i glywed pob cyfranogwr. Os nad yw'r Gwrandawriad Materion Penodol, neu rannau ohono, yn gallu mynd rhagddo, er enghraifft oherwydd rhesymau technegol, yna gall yr Awdurdod Archwilio ohirio busnes anghyflawn i wrandawriadau neilltuedig yn nes ymlaen yn Amserlen yr Archwiliad. Bydd hysbysiad o unrhyw ohiriadau yn cael ei roi ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllun Seilwaith Cenedlaethol.

Microsoft Teams

Bydd y Gwrandawriad Materion Penodol yn cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mae rhagor o wybodaeth am ddiwyddiadau rhithwir yn ymwneud â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w gweld yn Nodyn Cyngor 8.6 yr Arolygiaeth Gynllunio: Digwyddiadau archwilio rhithwir:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/nodyn-cyngor-8-6-digwyddiadau-archwilio-rhithwir/>

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys fideo byr ynglŷn â chymryd rhan mewn digwyddiad rhithwir yr Arolygiaeth Gynllunio, i'w gweld ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

<https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-virtual-events-guide-to-participating>

Cysylltwch â'r Tîm Achos os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddefnyddio

Microsoft Teams neu os hoffech gynnal prawf ar eich trefniadau mynediad:

awelymor@planninginspectorate.gov.uk

0303 444 5000